

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mawrth

Disgrifiad o'r modiwl

TMXY130 yw un o'r modiwlau cyntaf a gaiff ei astudio gan fyfyrwyr Prentisiaeth Gradd sy'n dilyn y cwrs BSc (Anrhydedd) mewn Datrysiadau Digidol a Thechnegol. Mae'r modiwl yn cyflwyno cysyniadau allweddol mewn rhwydweithio a seiberddiogelwch, ynghyd â phynciau mathemategol sy'n berthnasol i astudio modiwlau Cyfrifiadura'r Brifysgol Agored.

Mae TMXY130 yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol i fyfyrwyr ym mhob rhan o'r technolegau cyfrifiadura gwahanol a gwmpesir, ac yn eu helpu hefyd i ddatblygu eu sgiliau astudio a dod yn ddysgwyr annibynnol a myfyriol. Bydd myfyrwyr yn astudio ar-lein yn unig drwy wefan y modiwl sy'n cyfeirio at ddeunydd Cisco (dwy ran o dair o'r cynnwys). Bydd tiwtoriaid yn helpu myfyrwyr drwy gymysgedd o weithgareddau cydamseredig ac anghydamseredig.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- bod yn ddefnyddiwr cyfrifiadur hyderus â chefnidir yn y defnydd ohonynt at ddibenion cymdeithasol, gwaith neu addysg
- bod yn wybodus am dechnolegau cyfrifiadur a chyfathrebu cyfredol a diddordeb mewn datblygiadau sy'n gysylltiedig â Chyfrifiadura a TG
- y gallu i ddatblygu sgiliau mathemategol myfyrwyr, gan gynnwys datrys problemau a meddwl algorithmig
- y gallu i addysgu cysyniadau sylfaenol ac egwyddorion technegol rhwydweithio a seiberddiogelwch, a'u cymhwysedd yn y gweithle
- y gallu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig, rhifedd, llythrennedd digidol a gwybodaeth myfyrwyr a'u defnydd o'r iaith Saesneg
- y brwdfrydedd a'r gallu i hwyluso gweithgareddau anghydamseredig ar ffurf fforwm a chymedroli fforymau ar-lein
- y brwdfrydedd a'r gallu i gyflwyno tiwtorialau ar-lein a thiwtorialau wyneb yn wyneb
- bod yn barod i gymryd rhan weithredol mewn cymuned ar-lein o athrawon a dysgwyr
- bod yn barod i ddefnyddio a datblygu sgiliau fel athro, gan ddefnyddio technolegau newydd a thechnolegau sy'n datblygu er mwyn helpu myfyrwyr i ddysgu
- bod â diddordeb mewn defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau i fynd i'r afael ag agenda cadw a datblygu'r gyfadran

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o gynnwys Academi Rhwydweithio Cisco
- cymhwyster neu achrediad addysgu priodol (e.e. TAR neu gymhwyster cyfatebol; aelodaeth o'r Academi Addysg Uwch neu gymhwyster cyfatebol;)
- profiad o weithio gyda chymheiriaid er mwyn darparu gwersi
- parodrwydd i weithio gyda chydweithwyr eraill yn Y Brifysgol Agored wrth gefnogi myfyrwyr ar ein Rhaglen Prentisiaeth Gradd

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6